

Trugaredd

Darllen: Mathew 5:17

Ys gwn i pam y llefarodd Iesu'r geiriau hyn? Mae'n amddiffyn ei ddysgeidiaeth ei hun. Tybed oedd o'n ymwybodol y byddai rhai pobl yn ei gamddeall? Tybed oedd rhai'n credu ei fod wedi dod i ddileu'r Gyfraith? Roedd o, wedi'r cwbl, wedi iachau ar y Saboth. Na, nid dod i ddileu'r Gyfraith a wnaeth Iesu, ond i'w chyflawni. Doedd Iesu ddim yn wrthwynebus i ofynion y Gyfraith. Nid anarchydd oedd o. A dydi rhyddid ddim yn golygu trwydded i wneud fel y mynnwn ni. Gwyddai Iesu'n iawn beth oedd gofynion y Gyfraith. Cafodd ei fagu a'i ddysgu i ufuddhau i orchmynion y Torah. Iddew oedd Iesu. Mae'n anodd i ni ddeall yn union beth oedd cysylltiad yr Iddew â'r Gyfraith. Ond da o beth yw i ni sylweddoli na fedrwn fychanu ac anwybyddu gofynion y Gyfraith. Mae disgyblaeth, a hunanddisgyblaeth, mor greiddiol i'n gwareiddiad. Mae'n rhaid i'r Cristion sefyll yn erbyn drygau'r oes – ni all dim daioni ddod o fywyd anhrefnus, ffwrdd-â-hi. Ac wrth gwrs, mae disgyblaeth yn ei thro yn arwain at wireddu breuddwyd, ennill anrhydedd a chyflawni'r amhosibl. Mae'r athletwr yn gorfod ei ddisgyblu ei hun er mwyn cyrraedd cyflwr o ffitrwydd; mae'r cerddor yn ymarfer ei ddawn er mwyn cyrraedd perffeithrwydd; ac mae'n rhaid i'r myfyriwr ei ddisgyblu ei hun er mwyn gallu rhagori yn ei arholiadau. Er ei holl bwyslais ar drugaredd a rhyddid a maddeuant, mae'n rhaid pwysleisio na ddaeth Iesu i ddileu'r Gyfraith ond i'w chyflawni.

Ond, a dyma ddod at graidd ein myfyrdod, fe all y Gyfraith fod yn llym, yn ddirugaredd a didostur. Ac yn aml iawn, fe all pobl lwyddiannus fod yn didostur. Byd creulon ydi byd busnes: byd digyfaddawd. Cyn y dirwasgiad dwys a ddechreuodd ganol 2008, cofiaf sgwrsio â rheolwr banc oedd â gofal dros y busnes. Mynegodd ei bryder ac agor ei galon. Unig ddyhead ei fanc bryd hynny oedd gwneud elw, a hynny ar draul pob unigolyn a phob busnes oedd yn bodoli yn Ynysoedd Prydain. Roedd gofyn i bob rheolwr forol bod elw'n cael ei wneud, ac roedd yn rhaid

ennill mwy a mwy o gwsmeriaid. Doedd dim cyfle i orffwys ar y rhwyfau. A thra bo'r holl bobl lwyddiannus yn mynd ymlaen yn hyderus, mae eraill – y rhai sydd heb gyfle o gwbl i gyrraedd gwaelod yr ysgol hyd yn oed – yn rhygnu byw. Roedd proffwydi'r Hen Destament yn barod i ddyrchafu'r rhai isel radd, gan gondemnio'r un pryd y rhai oedd yn eu sathru dan draed ac yn eu dirmygu. Meddai Sechareia, 'Pwy bynnag a ddirmygodd ddydd y pethau bychain, caiff lawenhau wrth weld carreg y gwahanu yn llaw Sorobabel' (Sechareia 4:10).

Pwysleisiodd Iesu fod disgyblaeth a chadw'r Gyfraith yn bwysig. Ond dangosodd Iesu hefyd dosturi a thrugaredd - a'u dangos at bobl yr ymylon. Tosturi a thrugaredd i'r rhai oedd yn cael eu halltudio o gymdeithas y bobl fawr. Tosturi a thrugaredd i rai nad oedd neb yn malio amdany'n nhw – y bobl oedd islaw sylw cymdeithas a'r gymuned grefyddol. Doedd Iesu ddim yn brin o atgoffa'r rhai a gadwai at lythyren y Gyfraith bod trugaredd a thosturi yn rhan anhepgor o'i genhadaeth ef. Ychwanegu at y Gyfraith, a'i chyflawni oedd pwrpas ei weinidogaeth.

Dyna pam ei bod yn anhepgor i gael llais y Cristion ym mhob agwedd o fywyd.

Myfyrdod pellach:

Ydi dangos trugaredd yn dangos yr ochr 'feddal' yng nghymeriad yr unigolyn?

Pa mor barod ydi'r Cristion i ymuno yn holl fywyd y gymdeithas?